# Pwyllgor Adnoddau Dynol

**4 Hydref 2023**

Yn Bresennol (yn Bersonol)
Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd SL Hancock, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd R Jordan a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00 am – 12.40 pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James, Mr GA Jones a'r Cynghorydd PJ Morgan.

**2. Datgan Buddiannau**

Datgelodd Mrs J James bod ganddi fuddiant personol yn rhinwedd y ffaith ei bod yn adnabod yr ymgeisydd oedd yn cael ei gyfweld am y swydd Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a Chodi Arian.

**3. Eithrio'r Cyhoedd**

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

**4. Cyfweld ymgeiswyr am y swydd Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a Chodi Arian**

Gan fod y Cadeirydd yn adnabod yr ymgeisydd, camodd i lawr o fod yn gadeirydd adeg ystyried yr eitem hon. Ar gynnig Dr Heath-Davies ac a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, penodwyd y Cynghorydd D Clements yn Gadeirydd am y rhan hon o'r cyfarfod.

Cafodd un ymgeisydd ei gyfweld ar gyfer y swydd.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd Jordan, **penderfynwyd** argymell i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol bod Catrin Evans yn cael ei phenodi yn Bennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a Chodi Arian. Nodwyd pe byddai Ms Evans yn cael ei phenodi, y byddai angen iddi adnewyddu ei haelodaeth o'r corff proffesiynol perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion am Swyddog Adran 151 ac y byddai'r Swyddog Adran 151 presennol yn parhau yn ei rôl hyd nes y byddai'r swyddog newydd mewn sefyllfa i ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

**5 Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Mehefin ac ar 27 Medi 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 ac ar 27 Medi 2023**.**

**6. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Nodwyd y camau gweithredu oedd wedi'u cwblhau. O ran yr Archwiliad ar Weithio Gartref (rhif 895), dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y mwyafrif o'r asesiadau wedi'u dychwelyd ac y byddent yn cael eu diweddaru yn ystod y gwerthusiad blynyddol. Byddai'r gofynion gweithio gartref hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses sefydlu ar gyfer staff newydd yn y dyfodol.

O ran cyflwyno gwybodaeth ar faterion Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cofnod 7a o gofnodion 28 Mehefin 2023) dywedodd y Cadeirydd nad oedd cyfarfod wedi'i gynnal hyd yn hyn.

**7. Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd**
Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd oedd yn cael ei gynnal ar y pryd. Dywedwyd bod cam 1 bellach bron wedi'i gwblhau, a gweddill y disgrifiadau swydd a'r holiaduron i'w cyflwyno i'r ymgynghorwyr cyn diwedd yr wythnos. Byddai'r Panel Mewnol ar Werthuso Swyddi yn derbyn hyfforddiant y diwrnod canlynol. Hefyd bod y weithdrefn wedi'i llunio o werthuso swyddi'r Awdurdod yn gyson, ynghyd â'r weithdrefn apelio, ac roedd y gweithdrefnau hyn wedi'u hatodi i'r adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau.

Nodwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 wedi cyfeirio at Aelodau'r Pwyllgor yn cymryd rhan yn yr apeliadau, ond nid oedd hyn bellach yn gyson â'r weithdrefn apelio a gynigir yn awr.

Oherwydd yr oedi, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod y staff a'r Tîm Rheoli wedi derbyn diweddariadau ynglŷn â'r broses, a bod y Rheolwr AD wedi cyfarfod â'r grwpiau a'r unigolion i'w helpu i gwblhau'r ddogfennaeth. Hefyd gofynnodd yr Aelodau am y gallu i gynnal gwrandawiadau apêl yn Gymraeg, ac am oblygiadau'r weithdrefn i'r gyllideb. Cadarnhaodd y Rheolwr AD y byddai'r holl ddogfennaeth ar gael yn ddwyieithog ac y byddai brawddeg yn cael ei chynnwys i gadarnhau y gellid cynnal apeliadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Atgoffodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor bod cronfa wrth gefn wedi'i neilltuo i dalu costau'r ymarferiad gwerthuso swyddi. Roedd yn anffodus nad oedd setliad cyflogau 2023 wedi'i gytuno eto, ond roedd swm y barnwyd ei fod yn swm priodol wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y broses gwerthuso swyddi cyn y cyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**

**8. Metrigau Adnoddau Dynol**

Cyflwynwyd ystadegau ar nifer o Fetrigau Adnoddau Dynol a rhoddwyd esboniad pellach ar rai o'r ystadegau hynny fel a ganlyn.

Proffil Oedran Staff - Dywedodd Aelod ei fod yn falch gweld bod camau wedi'u cymryd i recriwtio pobl iau, ond roedd dwy ran o dair o'r staff yn dal yn 41 oed neu'n hŷn. Dywedodd y Rheolwr AD y byddai'r Awdurdod yn mynychu digwyddiad gyrfaoedd ganol mis Tachwedd a anelir at bobl ifanc 14-16 oed, a'r gobaith oedd cynhyrchu fideos i hyrwyddo'r ystod o swyddi yn yr Awdurdod. Roedd y potensial o gynnig prentisiaethau yn cael ei ystyried, a hefyd bod gan y staff gysylltiadau ag ysgolion yr ardal.

Absenoldeb Salwch – Eglurodd y Rheolwr AD er bod 73.5 diwrnod o absenoldeb fis Awst yn edrych yn frawychus, roedd hyn oherwydd bod 2 aelod o staff yn absennol o'r gwaith am gyfnod sylweddol o amser. Wedi edrych ar y rhesymau dros yr absenoldeb, dywedwyd nad oedd unrhyw batrymau oedd yn peri pryder a bod ffigurau'r Awdurdod yn is o lawer na'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus. Dywedwyd nad oedd unrhyw un yn absennol o'r gwaith ar y pryd oherwydd salwch meddwl, er bod ambell aelod o staff yn cael cymorth cwnselydd annibynnol a ddarperir gan yr Awdurdod. Hefyd dywedwyd y byddai digwyddiad llesiant yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol fyddai'n cynnwys sesiwn ar reoli straen.

Hyfforddiant – Nododd Aelod nad oedd rhai aelodau o staff yn cydymffurfio o ran derbyn hyfforddiant gorfodol, gan ddweud y gallai lefelau uwch o gydymffurfio fod wedi arwain at gyfraddau is o absenoldeb salwch. Cadarnhaodd y Rheolwr AD bod hyn yn derbyn sylw, a phetai rhywun yn cael ei anafu y byddai'r hyfforddiant a ddilynwyd hefyd yn derbyn sylw.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024 heb eu diwygio. |